Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gweledigaeth Strategol ar gyfer Nyrsio a Bydwreigiaeth

## 2025 - 2030

Arwain newid drwy ragoriaeth, arloesedd ac ymarfer wedi ei rymuso.

OGL ©Hawlfraint y Goron 2025 WG53394 Digital ISBN Digital ISBN 978-1-80633-620-3
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

"Wedi'i llunio gan nyrsys, bydwragedd, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid, **mae'r weledigaeth hon yn nodi sut y bydd y proffesiynau'n arwain, yn arloesi, yn dylanwadu ac yn ymdrechu tuag** at ragoriaeth ar bob lefel o'r system iechyd a gofal."

# Cynnwys

01.

Rhagair gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru, Sue Tranka

02.

Cyflwyniad

03.

Themâu'r Weledigaeth

04.

Y Camau Nesaf

05.

Cydnabyddiaethau

## Rhagair

"Mae hon yn alwad i uno'r proffesiynau, ysbrydoli newid, a chreu dyfodol lle **mae ansawdd gofal yn wych, mae cymunedau'n ffynnu, a phobl a'r blaned yn llewyrchu.**"



**Mae'r Weledigaeth Strategol hon yn amlinellu llwybr pum mlynedd uchelgeisiol sy'n uno'r proffesiynau, yn grymuso gweithredu, ac yn arddangos eu heffaith drawsnewidiol ar draws y system iechyd a gofal.**

**Wedi'i llunio gan nyrsys, bydwragedd, defnyddwyr gwasanaethau, a rhanddeiliaid, mae'n diffinio sut y bydd y proffesiynau'n arwain, yn arloesi, ac yn dylanwadu ar bob lefel.**

Wedi'i gyrru gan chwe thema drawsnewidiol—grymuso'r gweithlu, arweinyddiaeth, rhagoriaeth, gofal sy'n canolbwyntio ar y boblogaeth, arloesedd, a phartneriaethau byd-eang—mae'r weledigaeth yn hyrwyddo gweithredu, yn cryfhau hunaniaeth broffesiynol, ac yn ymgorffori cynaliadwyedd o fewn ymarfer.

Mae hon yn alwad i uno'r proffesiynau, ysbrydoli newid, a chreu dyfodol lle mae ansawdd gofal yn wych, mae cymunedau'n ffynnu, a phobl a'r blaned yn llewyrchu.

Rwy'n disgwyl i bob nyrs, bydwraig, arweinydd system, a sefydliad partner ledled Cymru groesawu'r weledigaeth hon a defnyddio ei hegwyddorion yn ymarferol. Gan ddefnyddio gwyddoniaeth weithredu, bydd sefydliadau'n cynllunio, yn cyflawni, ac yn gwerthuso newidiadau i sicrhau arloesedd, cynaliadwyedd a rhagoriaeth gyson sy'n fesuradwy. Mae hyn yn cynnwys cymhwyso tystiolaeth, monitro canlyniadau, mireinio ymyriadau, ac amlygu arferion llwyddiannus.

I'r cyhoedd a chleifion, mae'r weledigaeth hon yn addo gofal cynhwysol, mwy diogel a thosturiol, sy'n canolbwyntio ar y person; gofal a ddarperir gan weithlu hyderus, medrus a grymus. Bydd cymunedau'n elwa o gyd-gynhyrchu, mynediad teg, dulliau ataliol a modelau gofal arloesol, gyda phob penderfyniad yn cael ei arwain gan atebolrwydd a chynaliadwyedd.

Mae'r weledigaeth yn darparu cyfeiriad clir trwy themâu, datganiadau a blaenoriaethau sydd wedi'u diffinio, ac a fydd yn llywio cynlluniau gwaith manwl sy'n amlinellu camau gweithredu, cyfrifoldebau a cherrig milltir. Bydd y cynlluniau hyn yn golygu bod y weledigaeth yn arwain at ganlyniadau pendant, wedi'u hategu gan dryloywder a didwylledd yn y modd rydym yn gweithio. Byddant yn amlinellu'n glir y mecanweithiau cyflawni a'r partneriaethau sydd eu hangen i gyflawni effaith fesuradwy a gaiff ei rhannu ar draws y system.

I gefnogi hyn, byddaf yn cynnull uwchgynhadleddau dan arweiniad Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio ar gyfer pob thema, gyda chefnogaeth fy Nirprwy a'r Swyddogion Nyrsio o'm tîm. Bydd y fforymau hyn yn adnabod materion allweddol, yn rhannu dysgu ac yn arwain gwaith ffocws i yrru cynnydd ledled Cymru.

Bydd deallusrwydd artiffisial (AI), genomeg, a nyrsio manwl yn rhan bwysig o'n huwchgynadleddau, gan adlewyrchu'r wyddoniaeth a'r dechnoleg sy'n esblygu ac yn llunio arfer modern. Caiff pob uwchgynhadledd ei hategu gan werth economaidd nyrsio, a arddangosir drwy arweinyddiaeth glinigol ar y cyd cryfach, a thystiolaeth o effaith.

Drwy ymrwymo i'r weledigaeth hon, bydd y proffesiynau'n arwain newid trawsnewidiol, yn cryfhau hunaniaeth ac yn ymgorffori rhagoriaeth ledled system iechyd a gofal Cymru. Trwy ymarfer cynhwysol a modelu rôl, byddant yn hyrwyddo ecwiti, tosturi a dilysrwydd. Gyda'n gilydd, byddwn yn cyd-greu dyfodol lle mae gofal yn rhagorol yn gyson, lle mae cymunedau'n ffynnu, ac mae Cymru'n cael ei chydnabod am ei harweinyddiaeth ac effaith nyrsio a bydwreigiaeth ledled y byd.

Mae'r weledigaeth hon yn perthyn i bob nyrs a bydwraig, lle bynnag y maent yn gweithio, ar draws pob sector a lleoliad, gan uno'r proffesiynau trwy bwrpas ac uchelgais cyffredin.

**Sue Tranka, Prif Swyddog Nyrsio Cymru**

"Mae nyrsys a bydwragedd yng Nghymru yn cael eu parchu'n fyd-eang am **eu harweinyddiaeth, eu harloesedd a'u rhagoriaeth** wrth ddarparu **gofal cyson sy'n ddiogel, tosturiol, yn canolbwyntio ar y person,** ac sy'n trawsnewid bywydau, cymunedau ac iechyd y blaned."

**Mae’r proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth wrth wraidd systemau gofal iechyd, yn darparu gofal, cefnogaeth ac eiriolaeth hanfodol ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae’r weledigaeth strategol hon yn gosod cyfeiriad, blaenoriaethau ac uchelgeisiau ar gyfer y proffesiynau hyn, gan sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion esblygol cymdeithas, yn addasu i’r tirweddau gofal iechyd sy’n newid o hyd, ac yn cynnal y safonau ymarfer uchaf.**

Mae’r Weledigaeth hon yn cyd-fynd â “Cymru Iachach”, y strategaeth Iechyd a Gofal 10 mlynedd o hyd ble’r ydym yn anelu tuag at ddull system gyfan ar gyfer gofal iechyd a chymdeithasol sy’n canolbwyntio ar gadw pobl yn iach trwy ragweld eu hanghenion iechyd, atal salwch a lleihau effeithiau iechyd gwael. Yn 2024, cafodd y camau gweithredu polisi o dan Cymru Iachach eu hadnewyddu. Mae'r chwe thema gyffredinol a amlinellir yn y Weledigaeth Strategol hon yn cyd-fynd â'r themâu diwygiedig a’r camau gweithredu, ac yn benodol y rhai sy'n cefnogi gofal sy'n canolbwyntio ar y person, sy’n gynaliadwy, o ansawdd uchel ac yn ddiogel gyda gweithlu amrywiol wrth ei wraidd.

Mae'r weledigaeth hon hefyd yn cydnabod yr angen i ddarparu gwasanaethau a gofal yn ddwyieithog, gan gydnabod rôl hanfodol y gweithlu wrth gefnogi'r iaith Gymraeg a chyflwyno'r Cynnig Rhagweithiol a darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y person i bobl sy'n siarad Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau yn y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn, a chreu diwylliant lle mae gwasanaethau'n cynnig gofal yn y Gymraeg mewn modd rhagweithiol.

Pwrpas y weledigaeth strategol yw sefydlu map trywydd clir ar gyfer y dyfodol, gan arwain datblygiad y gweithlu, arfer proffesiynol, arweinyddiaeth ac arloesedd. Ei nod yw gwella ansawdd gofal, hyrwyddo diogelwch cleifion a meithrin diwylliant o welliant parhaus a dysgu gydol gyrfa o fewn y proffesiynau.

# Dod â'r weledigaeth yn fyw: **Ein Hegwyddorion Arweiniol**

**Mae'r Weledigaeth Strategol wedi'i hategu gan egwyddorion arweiniol, pob un yn disgrifio sut y bydd nyrsio a bydwreigiaeth yn arwain, yn cyflwyno ac yn trawsnewid gofal yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r egwyddorion hyn yn darparu sylfaen ar gyfer gweithredu, dylanwadu ac arloesi, gan fynegi'r uchelgais broffesiynol, yr arweinyddiaeth a'r gallu sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth dros y pum mlynedd nesaf:**



**Uchelgais Proffesiynol Cyffredin** a chyfeiriad pum mlynedd o hyd ar gyfer sut y bydd y proffesiynau'n arwain, yn darparu ac yn trawsnewid iechyd a gofal i ddiwallu anghenion y boblogaeth yng Nghymru. Mae wedi'i seilio ar bwrpas a gwerthoedd cyffredin, a sylfaen gref ar gyfer dylanwadu.

**Fframwaith Hyblyg ac Addasol** sy'n creu sylfaen ystwyth sy'n galluogi nyrsys a bydwragedd i arwain a chroesawu newid, gyrru gwelliannau a chynnal cydlyniant, gan sicrhau bod y proffesiynau'n parhau i fod yn ddylanwadol, yn edrych ymlaen ac yn ymwybodol o'r amgylchedd, a hynny mewn system iechyd a gofal sy'n esblygu'n gyflym.

**Cyfeiriad Clir** sy'n darparu naratif ysgogol a chydlynol sy'n sicrhau bod nyrsio a bydwreigiaeth ar flaen y gad o ran trawsnewid iechyd a gofal. Bydd hyn yn rhoi ymdeimlad clir o bwrpas, blaenoriaeth a chyfeiriad i'r proffesiynau a'r rhanddeiliaid, ac yn cynnwys ymrwymiad i ymarfer cynaliadwy.

Rydym yn cael ein harwain gan yr egwyddor bod ein datblygiadau'n cael eu **cyd-gynhyrchu** gyda, ac yn cael eu llunio'n barhaus gan, leisiau, cyfranogiad a phrofiadau pobl a rhanddeiliaid. Mae'r dull hwn yn grymuso unigolion a chymunedau i gymryd rhan weithredol a dylanwadu ar benderfyniadau ar bob lefel, gan sicrhau bod eu mewnwelediadau a'u dyheadau yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ein blaenoriaethau, ein gweithredoedd, a dyfodol nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru.

Alinio â chynlluniau gweithlu cenedlaethol Cymru i ddarparu'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth gyda'r **Sgiliau, y Capasiti a'r Gallu** sy'n hanfodol i gyflawni'r weledigaeth, tra'n meithrin amgylcheddau gwaith sy'n ddiogel, yn gynaliadwy, yn hyblyg a chynhwysol.

**Alinio a Dylanwadu Strategol** gan sicrhau bod y proffesiynau'n ganolog i flaenoriaethau cenedlaethol, gan ei gwneud hi'n glir bod cyflawni strategaethau iechyd a gofal allweddol yn dibynnu ar eu harweinyddiaeth, eu harbenigedd a'u dylanwad, gan gynnwys ymgorffori cynaliadwyedd a chyfrifoldeb amgylcheddol ar draws y systemau gofal.

Annog **Arweinyddiaeth, Ymgysylltu a Pherchnogaeth** ar bob lefel, o fyfyrwyr a gweithwyr proffesiynol ar ddechrau eu gyrfa, i uwch arweinwyr ac arweinwyr gweithrediaeth, gan gydnabod yr effaith enfawr y mae nyrsys a bydwragedd yn ei gael ar fywydau, ar gymunedau a'r blaned.


# Themâu'r Weledigaeth

Mae'r chwe thema yma yn ffurfio sylfaen Gweledigaeth Strategol Cymru ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth. Cawsant eu llunio trwy ymgynghori'n helaeth â nyrsys, bydwragedd, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau ac maent yn adlewyrchu'r hyn sydd o bwys i'r proffesiynau a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r themâu'n adlewyrchu uchelgais nyrsys a bydwragedd a'r camau ymarferol sydd eu hangen er mwyn cyflawni gofal trawsnewidiol a chynaliadwy dros y bum mlynedd nesaf.

**'Cawsant eu llunio trwy ymgynghori'n helaeth â nyrsys, bydwragedd, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau…'**

Mae pob thema'n tynnu sylw at faes hollbwysig lle bydd y proffesiynau'n arwain, yn arloesi ac yn dylanwadu ar ganlyniadau: o ddatblygu'r gweithlu ac arweinyddiaeth i addysg, gofal sy'n canolbwyntio ar y boblogaeth, arloesedd a phartneriaethau byd-eang.

Ar y cyd, maent yn darparu fframwaith cydlynol sy'n tywys gweithredu, yn cryfhau hunaniaeth broffesiynol ac yn ysbrydoli'r proffesiynau i ddarparu gofal cyson sy'n ddiogel, yn dosturiol, sy'n canolbwyntio ar y person a hynny ar gyfer unigolion, cymunedau a'r blaned.


Dräger
Standby

# 01.

# Gweithlu sy'n cael ei Werthfawrogi, ei Barchu a'i Rymuso



**Yn 2030, mae nyrsys a bydwragedd yn cael eu cydnabod am eu rhagoriaeth a'u cefnogi i arwain, arloesi a thyfu ar draws gyrfaoedd amrywiol. Mae gofal tosturiol a holistaidd yn ffynnu mewn amgylcheddau sy'n blaenoriaethu lles, diogelwch, ansawdd, cynhwysiant, cydweithio, dysgu gydol oes a rhagoriaeth mewn gofal.**

**Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

Cadw a recriwtio staff trwy fentrau lles, lleoli staff mewn modd hyblyg, a modelau gwaith modern sy'n cefnogi gyrfaoedd portffolio.

Mae blaenoriaethu iechyd a lles nyrsys a bydwragedd yn hanfodol i ddarparu gofal diogel sy'n canolbwyntio ar y person, a'u galluogi i fod yn fodelau rôl cadarnhaol i bobl Cymru.

Meithrin diwylliant sy'n parchu amrywiaeth, cynhwysiant a gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau.

Cefnogi datblygiad proffesiynol drwy gyfleoedd strwythuredig ac amrywiol.

Cryfhau cydweithio traws-sector ac alinio datblygiad y gweithlu ag anghenion y boblogaeth leol, modelau gofal sy'n dod i'r amlwg sy'n hyrwyddo iechyd ac yn symud gofal yn agosach at y cartref, ynghyd â chyfleoedd o ran arloesedd digidol a thechnolegol.

Ymgorffori gofal holistaidd sy'n canolbwyntio ar y person, fel elfen graidd ansawdd, diogelwch a chyflawniad proffesiynol.

Meithrin amgylcheddau sy’n ddiogel yn seicolegol drwy diwtoriaeth, goruchwyliaeth glinigol adferol a chydlyniant tîm cryf.

Hyrwyddo arferion cynaliadwy yn amgylcheddol ar draws lleoliadau gofal, gan gydnabod effaith gofal iechyd ar gymunedau ac ar y blaned.

# 02.

# Arweinyddiaeth a Hunaniaeth Broffesiynol Rymus



## Yn 2030, bydd nyrsys a bydwragedd yn arwain yn hyderus gyda phwrpas ar bob lefel, gan lunio polisi, dylanwadu ar wneud penderfyniadau a gyrru diwygio systemig. Caiff eu harbenigedd, eu llais a'u heffaith gymdeithasol eu cydnabod a'u dathlu, gan sicrhau bod y proffesiynau wrth wraidd trawsnewid iechyd a gofal.

**Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

Cryfhau arweinyddiaeth glinigol a system ar draws pob rôl a lleoliad, gan rymuso gweithwyr proffesiynol i fod yn berchen ar eu gofod eu hunain a bod yn falch ohono, gan gymryd y cam cyntaf a gyrru rhagoriaeth mewn gofal a chanlyniadau.

Adeiladu rhaglen arweinyddiaeth arfaethedig gynhwysol sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymunedau.

Bod yn berchen ar safonau llywodraethu a phroffesiynol a'u cynnal ar draws pob model gwasanaeth, gan arddangos atebolrwydd, natur agored, gonestrwydd a rhagoriaeth er mwyn meithrin ymddiriedaeth a sicrhau gofal diogel o ansawdd uchel.

Sefydliadu cyd-gynhyrchu ystyrlon ar draws pob gwasanaeth, gyda mecanweithiau i sicrhau bod lleisiau cleifion, teuluoedd a chymunedau yn cael eu clywed, eu gweithredu a'u bod yn cyfrannu tuag at lunio polisi, ymarfer a dylunio gwasanaethau.

Hyrwyddo cydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol ac ymarfer gwrth-wahaniaethol.

Arwain gyda phwrpas ac adeiladu diwylliant lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu fel rhan naturiol o fywyd gwaith bob dydd.

Hyrwyddo arweinyddiaeth sy'n ystyried cynaliadwyedd, gan annog penderfyniadau sy'n cydbwyso gofal o safon â chyfrifoldeb amgylcheddol.

03.

# Arbenigedd drwy Addysg, Ymchwil a Data



## Yn 2030, mae nyrsys a bydwragedd yn arwain drwy dystiolaeth, ymchwil ac arloesedd. Mae dysgu gydol gyrfa wedi'i ymgorffori mewn ymarfer, gan alluogi twf proffesiynol, dyfnhau arbenigedd, llywio'r broses o wneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddata sy'n gwella canlyniadau gofal.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn:

Cyflwyno ymarfer sy'n weithredol o ran ymchwil ac wedi ei seilio ar dystiolaeth ar draws pob rôl a hynny drwy weithredu Cynllun Gweithredu ar Flaenoriaeth 2025.

Cryfhau llwybrau addysg, datblygu a gyrfa mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, arweinwyr proffesiynol a phartneriaid y sector.

Manteisio ar ddata a thystiolaeth amser real i yrru gwelliannau sy'n cael effaith uchel ar ansawdd gofal, diogelwch a chanlyniadau ar gyfer cleifion a'r boblogaeth.

Integreiddio cynaliadwyedd ac ymwybyddiaeth o'r hinsawdd i addysg, ymchwil ac ymarfer. Darparu gofal iechyd cynaliadwy: datganiad sefyllfa ar LLYW.CYMRU

# 04.

# Gofal Ataliol ac sy'n Canolbwyntio ar y Boblogaeth



**Yn 2030, mae nyrsys a bydwragedd yn darparu gofal rhagorol, teg, sy'n canolbwyntio ar y person gydol oes, gan flaenoriaethu ataliadau, ymyrraeth gynnar a dulliau wedi'u teilwra’n arbennig. Maent yn hyrwyddo lles cymunedol, yn arwain y gad pan yn dod i hyrwyddo iechyd a symud iechyd y boblogaeth yn ei blaen, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol ac anghydraddoldebau eraill a hyrwyddo gofal cynhwysol a rhagweithiol.**

**Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd gan ddefnyddio dulliau croestoriadol a chynhwysol.

Ymgorffori modelau cymdeithasol o iechyd ac ymyriadau ataliol gydol oes.

Cryfhau partneriaethau â sefydliadau statudol, trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol.

Sicrhau mynediad cynhwysol i boblogaethau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu neu eu cynrychioli’n ddigonol, neu sy’n agored i niwed.

Cefnogi darpariaeth gofal sy'n canolbwyntio ar y person ac sy’n ddiogel, trwy ystyried anghenion iaith a chyfathrebu'r person, yn unol â Mwy na geiriau a Safonau cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch mewn gofal iechyd.

Ymgorffori penderfynyddion amgylcheddol iechyd mewn strategaethau sy'n canolbwyntio ar y boblogaeth.

# 05.

# Arloesedd mewn Gofal a Modelau'r Gweithlu



**Yn 2030, mae nyrsys a bydwragedd yn gyrru trawsnewidiadau, gan weithredu modelau hyblyg, amlbroffesiynol sy'n gwneud y mwyaf o arbenigedd, yn ymgorffori rhugldər digidol a thechnolegol ac yn gwella canlyniadau. Caiff arloesedd ei groesawu ar draws y gweithlu a'r ddarpariaeth gofal, gan sicrhau defnydd moesegol o dechnolegau newydd i wella diogelwch, ecwiti ac ymddiriedaeth. Drwy hyn, mae gwasanaethau'n parhau i fod yn ymatebol, yn effeithiol, ac yn gynaliadwy.**

**Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

Gweithredu modelau gofal hyblyg, amlbroffesiynol sy'n alinio ag anghenion y gymuned a'r unigolyn.

Hyrwyddo rhugldər, arloesedd a thrawsnewid digidol a thechnolegol ar draws y gweithlu.

Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i wella effeithlonrwydd a chanlyniadau.

Hyrwyddo ailgynllunio systemau a gofal sy'n seiliedig ar werth, gyda phwyslais ar atal a ffocws cymunedol.

Mabwysiadu arferion cynaliadwy yn amgylcheddol a dylunio modelau gofal sy'n lleihau effeithiau ecolegol.

# 06.

# Arweinyddiaeth a Phartneriaethau Byd-eang



## Yn 2030, mae proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth Cymru yn cyfrannu ar lefel ryngwladol, gan rannu arbenigedd, llunio polisi a gyrru atebion ynghylch iechyd yn fyd-eang. Drwy arddangos arloesedd a chydweithio'n fyd-eang, mae'r proffesiynau'n cryfhau enw da Cymru fel arweinydd mewn gofal iechyd rhagorol ac arfer cynaliadwy.

**Sut y byddwn yn cyflawni hyn:**

Gwella presenoldeb Cymru o fewn arweinyddiaeth iechyd, nyrsio a bydwreigiaeth yn fyd-eang.

Rhannu a dysgu o arloesiadau rhyngwladol mewn addysg, polisi ac arfer.

Hyrwyddo arferion gweithlu cynaliadwy, moesegol o ran cydweithio rhyngwladol.

Arddangos arloesiadau Cymru drwy gyfrwng cyhoeddiadau, partneriaethau a phresenoldeb byd-eang.

Dylanwadu ar yr agenda iechyd byd-eang er mwyn blaenoriaethu cynaliadwyedd a gofal iechyd sy'n effro i'r hinsawdd.

# Methodoleg

**Mae themâu gweledigaeth strategol pum mlynedd y Prif Swyddog Nyrsio wedi'u datblygu'n ailadroddol, wedi'u llunio'n wreiddiol trwy adolygu tystiolaeth, mewnwelediadau ac aliniad strategol, cyn cael eu profi a'u mireinio trwy ymgysylltu eang â rhanddeiliaid. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar sylfeini cryf blaenoriaethau'r Prif Swyddog Nyrsio ar gyfer 2022–2024 ac sydd wedi parhau i esblygu yn unol â'r newidiadau i dirwedd iechyd a gofal Cymru, a thu hwnt.**

**Mae ein dull wedi'i seilio ar y canlynol:**

Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu a thrwy ymrwymiadau gweinidogol ehangach, yn enwedig o ran anghydraddoldebau iechyd, y blynyddoedd cynnar, iechyd meddwl, atal a chynaliadwyedd.

Blaenoriaethau sydd wedi eu datgan gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan sicrhau bod ein gweledigaeth yn cefnogi nodau system ehangach a diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Y cyd-destun proffesiynol a pholisi sy'n esblygu, gan gynnwys adroddiadau a datganiadau safbwynt diweddar gan reoleiddwyr proffesiynol fel y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), a'r ffocws cynyddol ar arweinyddiaeth broffesiynol, diogelwch a chwmpas ymarfer.

Dadansoddiad parhaus o dueddiadau, heriau ac arloesiadau'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth, gan ddefnyddio data'r gweithlu cenedlaethol, fframweithiau cynllunio Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Perfformiad a Gwella GIG Cymru, a mewnwelediadau gan gyflogwyr, addysgwyr a defnyddwyr gwasanaethau.

Adolygiad o'r naratif yn y wasg a'r cyfryngau, sy'n adlewyrchu profiadau'r gweithlu nyrsio/bydwreigiaeth yn ystod ac ers y pandemig, y galw cynyddol, effaith pwysau costau byw, a chanfyddiadau'r cyhoedd o'r proffesiwn.

Gwersi o ddatblygiadau strategol a pholisi ledled y DU ac yn fyd-eang, gan sicrhau bod ein gweledigaeth yn parhau i edrych tuag allan, yn wynebu am ymlaen, ac wedi'i llywio gan arfer gorau rhyngwladol.

## Mae'r Weledigaeth Strategol wedi'i llunio trwy ymgynghori'n helaeth â nyrsys, bydwragedd, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau, gan adlewyrchu'r hyn sydd o bwys i'r proffesiynau a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt.

Cynhaliwyd gweithdai ymarferol a chyfweliadau manwl i ddatblygu syniadau ar y cyd a hynny drwy gannoedd o sgyrsiau. Cynhyrchodd gwrando cymdeithasol ac arolwg digidol filoedd o bwyntiau data i feintioli mewnwelediadau gan y gweithlu a'r holl randdeiliaid.

Yn seiliedig ar y canfyddiadau a'r mewnwelediadau hyn, cafwyd set glir o argymhellion ar gyfer datblygu strategaeth a chynhyrchu'r weledigaeth, gyda themâu yn adlewyrchu uchelgais nyrsio a bydwreigiaeth a'r camau ymarferol sydd eu hangen i gyflawni gofal trawsnewidiol a chynaliadwy dros y pum mlynedd nesaf.

Mae pob thema yn tynnu sylw at faes hollbwysig lle bydd y proffesiynau'n arwain, yn arloesi ac yn dylanwadu ar ganlyniadau: o ddatblygu'r gweithlu ac arweinyddiaeth i addysg, gofal sy'n canolbwyntio ar y boblogaeth, arloesi a phartneriaethau byd-eang. Gyda'i gilydd, maent yn darparu fframwaith cydlynol sy'n tywys gweithredu, yn cryfhau hunaniaeth broffesiynol ac yn ysbrydoli'r proffesiynau i ddarparu gofal cyson sy'n ddiogel, tosturiol, yn canolbwyntio ar y person a hynny ar gyfer pob unigolyn, cymuned a'r blaned.

Byddwn yn cydweithio â nyrsys a bydwragedd ar draws GIG Cymru, gan gynnwys arweinwyr nyrsio a bydwreigiaeth, a phartneriaid academaidd ledled y DU ac yn rhyngwladol i hyrwyddo'r weledigaeth strategol hon, gan gyflawni canlyniadau sy'n cael effaith yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

# Camau Nesaf

**Caiff y Weledigaeth Strategol hon ei hategu gan gynllun gwaith ar gyfer pob thema gyda chamau gweithredu, cerrig milltir a chyfrifoldebau clir i sicrhau y bydd yr hyn y mae'r proffesiynau a'r rhanddeiliaid wedi'i ddweud wrthym yn cael ei adlewyrchu yn yr ymarfer. Bydd hyn yn golygu gofal gwell i gleifion a'u teuluoedd ac arferion gwaith gwell ar gyfer nyrsys a bydwragedd.**

Dros y misoedd nesaf, cynhelir uwchgynhadleddau ar gyfer pob un o'r themâu. Caiff pob un ei arwain gan Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a'i gefnogi gan un o'r Swyddogion Nyrsio o Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio, gan roi cyfle i nyrsys a bydwragedd ar bob lefel i helpu i lunio a llywio'r gwaith sydd ei angen i fodloni gofynion heriol y Weledigaeth hon.

Mae'r Prif Swyddog Nyrsio eisiau i nyrsys a bydwragedd ymgysylltu â'r broses hon, bod yn feiddgar ac ymrwymo i sicrhau yn hytrach nag effeithio ar y gwelliannau sydd eu hangen i ofalu bod y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru yn cael eu cydnabod yn y DU ac yn fyd-eang am eu harloesedd, eu cydweithrediad, eu harweinyddiaeth a'u gofal tosturiol.

# Cydnabyddiaethau

**Hoffai Prif Swyddog Nyrsio Cymru ddiolch i'r nyrsys a'r bydwragedd ledled Cymru a gyfrannodd o'u hamser, eu mewnwelediad a'u harbenigedd i'r weledigaeth hon, a hwyluswyd gan Cowshed.**

**Gwerthfawrogir y mewnbwn amhrisiadwy gan y:**

Defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau a rannodd eu profiadau a'u safbwyntiau.

Rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol o bob cwr o Gymru gan gynnwys sefydliadau academaidd, Colegau Brenhinol a rhwydweithiau proffesiynol.

Diolch yn arbennig i Goleg Brenhinol Bydwragedd Cymru am ddarparu delweddau i'w defnyddio yn y ddogfen hon.